



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Y diweddaraf am yr asesiad poblogaeth

Rhagfyr 2017 (Rhifyn 13)

Llinell gymorth 24 awr Veterans Gateway

Mae yna rwydwaith anferth o sefydliadau sy'n cefnogi cymuned y lluoedd arfog, felly gall dod o hyd i'r un cywir i chi fod yn anodd. Mae Veterans Gateway yn gonsortwm o sefydliadau ac elusennau sy'n helpu i gysylltu cyn-filwyr a'u teuluoedd â'r sefydliadau cywir sy'n gallu helpu.



Gallwch sgwrsio ag aelod o'r tîm 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, dros y ffôn neu ar e-bost.

Ffoniwch **0808 802 1212**

Anfonwch neges destun i **81212** yn gofyn am alwad ffôn yn ôl

Ewch i'r wefan, www.veteransgateway.org.uk, i sgwrsio ag ymgynghorydd ar-lein neu anfonwch neges e-bost.

Gwefan newydd yn dod yn fuan...

Mae Swyddogion Cyswilt Lluoedd Arfog

Sbotolau ar... gyn-filwyr



Gogledd Cymru wrthi'n creu gwefan newydd ar gyfer gogledd Cymru sy'n hyrwyddo mentrau iechyd a lles ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Os hoffech chi awgrymu rhywbeth i'w gynnwys ar y wefan cysylltwch â Janette.Williams@wrexham.gov.uk neu Stephen.Townley@wrexham.gov.uk.

Blaenoriaethu triniaethau ar gyfer cyn-filwyr


Pan fydd milwyr yn gadael y lluoedd arfog mae eu gofal iechyd yn gyfrifoldeb ar y GIG. Er mwyn derbyn gofal iechyd, mae'n bwysig felly eich bod chi'n cofrestru gyda meddyg teulu'r GIG a rhoi gwybod iddyn nhw a gwasanaethau eraill eich bod chi wedi bod yn aelod o'r lluoedd arfog.

Bydd rhoi gwybod i'ch meddyg teulu am eich statws fel cyn-filwr yn golygu y bydd eich holl ddogfennau meddygol yn cael eu trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Amddiffyn i'ch meddyg teulu. Mi fyddwch chi hefyd yn gallu manteisio ar wasanaethau penodol i gyn-filwyr a mynediad wedi ei flaenoriaethu i ofal y GIG ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig â'ch cyfnod yn y lluoedd arfog.


Beth y gwnaethom ei ganfod

- Mae cyn-filwr yn rhywun sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog EM am o leiaf un diwrnod, gan gynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn/Atodol.
- Amcangyfrifir bod 51,000 o gyn-filwyr yn byw yng ngogledd Cymru, sef oddeutu 9% o'r boblogaeth sydd dros 16 oed.
- Rhagwelir y bydd nifer y cyn-filwyr wedi lleihau i 22,000 erbyn 2030.
- Mae'r rhan fwyaf o'r cyn-filwyr yn bobl 65 oed a hŷn felly, yn y dyfodol, bydd canran uwch o'r cyn-filwyr yn bobl iau o gefndiroedd amrywiol.
- Mae oddeutu un ymhob pump cyn-filwr yn dioddef o afiechyd hirdymor sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol, fel problemau cyhyrysgerbydol, nam ar y clyw a phroblemau iechyd meddw.
- Am fwy o wybodaeth gwelwch y pennod ar gyn-filwyr yn yr [Asesiad Poblogaeth](#) ac mae'r asesiad manwl o anghenion cyn-filwyr, a ddefnyddiwyd i gynnal yr adran hon o'r asesiad, ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/74177/>

Amcangyfrif o boblogaeth cyn-filwyr, 16 oed a hŷn, fesul oedran, GC



Amcangyfrif o boblogaeth cyn-filwyr, 16 oed a hŷn, fesul rhyw, GC



Amcangyfrif o nifer y cyn-filwyr ymhob sir

| Sir | Amcangyfrif o nifer y cyn-filwyr | Canran poblogaeth cyn-filwyr |
|--------------------|----------------------------------|------------------------------|
| Ynys Môn | 5,470 | 11 |
| Gwynedd | 9,010 | 18 |
| Conwy | 9,780 | 19 |
| Sir Ddinbych | 7,240 | 14 |
| Sir y Fflint | 10,440 | 21 |
| Wrecsam | 8,970 | 18 |
| Gogledd Cymru (GC) | 50,910 | 100 |

Beth y mae pobl yn ddweud wrthym ni?

Rydym ni wedi cynnal grŵp ffocws gyda chyn-filwyr er mwyn ein helpu i gyfrannu at yr asesiad poblogaeth. Bu i'r grŵp godi'r materion canlynol:

- Mae angen gwella dull cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng y fyddin a gwasanaethau statudol/cyhoeddus
- Wrth gynllunio trefniadau i ryddhau cyn-filwyr sydd wedi eu hanafu o'r ysbyty mae angen trefnu bod tîm ailsefydlu amlddisgyblaethol yn ei le

- Codi ymwybyddiaeth pobl o'r hyn sydd ar gael i gyn-filwyr, gan gynnwys gwefan gyda phopeth y bydd ar gyn-filwr ei angen i fyw bywyd y tu allan i'r lluoedd arfog
- Y syniad o achrediad tebyg i achrediad 'buddsoddwyr mewn pobl' ar gyfer staff
- Datblygu cynllun 'cyfeillgar i'r fyddin' ar gyfer eiddo, efallai wedi ei gysylltu â lleoliadau cefnogwyr

Beth rydym ni'n meddwl y dylai ddigwydd

- Gwneud yn siŵr bod anghenion gofal cymdeithasol, iechyd a lles, tai, addysg, sgiliau a chyflogaeth cyn-filwyr yn cael eu diwallu
- Gwella'r cefnogaeth i gyn-filwyr, y rheiny sy'n gwasanaethu yn y fyddin a'u teuluoedd yng ngogledd Cymru
- Gwella'r wybodaeth a'r ymchwil am gyn-filwyr, eu defnydd o wasanaethau a'r wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw
- Ystyried anghenion cyn-filwyr fel grŵp blaenoriaeth yng nghyd-



- destun cynllunio strategol a gwasanaeth
- Codi ymwybyddiaeth o'r ymrwymïadau a'r cyfrifoldebau dan y cyfamodau cymunedol

Cyfamodau Cymunedol Awdurdodau Lleol

Mae chwe chyingor gogledd Cymru wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ac yn addo cefnogi'r rheiny sydd yn ac wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd mewn pedwar maes allweddol: addysg; sgiliau a chyflogaeth; tai; ac iechyd a lles.

Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru

Sefydlwyd y fforwm yn 2012 i gefnogi cyn-filwyr, y rheiny sy'n gwasanaethu yn y fyddin a'u teuluoedd yng ngogledd Cymru. Mae'r fforwm yn dod â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol Gogledd Cymru, y Lluoedd Arfog, Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg, cyflogaeth a'r trydydd sector/sefydliadau gwirfoddol ynghyd. Y nod yw:

- Gwneud yn siŵr bod anghenion cymuned y lluoedd arfog yn cael eu nodi, eu hadolygu a'u hadlewyrchu mewn cynlluniau lleol ar gyfer darparu a datblygu gwasanaethau
- Datblygu a chynnal cyfeiriadur lleol o wasanaethau sy'n helpu aelodau o gymuned y lluoedd arfog
- Rhannu gwybodaeth am wasanaethau a materion a all effeithio ar gyn-filwyr a'u teuluoedd
- Rhannu syniadau arloesol ac arfer orau
- Monitro ac adolygu effeithiolrwydd y trefniadau blaenoriaethu triniaethau o fewn gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd
- Darparu ffocws strategol ar gyfer y chwe fforwm sirol
- Cefnogi cyfamodau cymunedol awdurdod lleol Gogledd Cymru

Themâu

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Iechyd, anabledau corfforol ac amhariadau synhwyrdd
- Anabledau dysgu ac awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig, a thrais rhywiol
- Digartrefedd
- Cyn-filwyr
- Pobl yn yr ystâd ddiogel

Rhagor o wybodaeth

Pecynnau asesu'r boblogaeth a chynllun ardal:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/cynllunio-a-hyrwyddo>

Cod Ymarfer Rhan 2:

<http://www.cgymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol/?force=2>

Canllaw cynllun ardal:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

Dewis Cymru (gwasanaethau ar gael i fodloni'r anghenion a nodir yn yr asesiad):

<https://www.dewis.cymru/>

Cysylltwch â ni

Sarah Bartlett, Rheolwr Prosiect
01824 712432

sarah.bartlett@sirddinbych.gov.uk

www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Cefndir i'r asesiad poblogaeth

Mae'r asesiad poblogaeth yn dwyn ynghyd wybodaeth am anghenion gofal a chefnogi pobl ac anghenion cefnogi gofalwyr yng ngogledd Cymru. Mae'n anelu at ddangos pa mor dda y mae anghenion pobl yn cael eu bodloni a'r gwasanaethau y byddwn eu hangen i'w diwallu yn y dyfodol. Fe wnaeth awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), a gefnogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, i lunio'r asesiad sy'n un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd yr asesiad poblogaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau rydym angen eu darparu yng ngogledd Cymru i ddiwallu anghenion gofal a chefnogi pobl ac anghenion cefnogi gofalwyr. Bydd yn ein helpu i benderfynu lle i ddefnyddio ein hadnoddau, i ddiwallu gofynion eraill y ddeddf ac i ddylanwadu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym wedi defnyddio pob math o dystiolaeth i adnabod beth sydd ei angen ac wedi gofyn i bobl beth maent yn ei feddwl sy'n bwysig, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogi ar hyn o bryd, panel dinasyddion gogledd Cymru, a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau yn yr awdurdodau lleol, sectorau iechyd, preifat a gwirfoddol.

Nesaf, byddwn yn ysgrifennu cynllun ardal rhanbarthol gan nodi'r ystod a lefel o wasanaethau y mae'r cynghorau a byrddau iechyd lleol yn bwriadu eu darparu neu drefnu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth. Mae'n rhaid cwblhau hwn erbyn 1 Ebrill 2018.

